**PWYLLGOR:** **PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

**DYDDIAD:** **22 HYDREF 2010**

**TEITL:** **BANGOR BLUES – DIWEDDARIAD**

**PWRPAS:** **ER GWYBODAETH**

**AWDUR:** **RHEOLWR TRWYDDEDU**

CEFNDIR

'Rwy'n sicr i chwi gofio i'r eiddo yma, o dan yr hen enw O'Shea's, fod o flaen yr Is-bwyllgor Trwyddedu ar 13 Mawrth, 2009 mewn ymateb i gais am adolygiad a dderbyniwyd oddi wrth yr Heddlu. Penderfyniad yr Is-bwyllgor bryd hynny oedd i wahardd y drwydded am gyfnod o 6 wythnos.

Yn dilyn y cyfnod yma, pryd hefyd newidiwyd enw'r eiddo i Bangor Blues, a bu newid yn y Goruchwiliwr Eiddo Dynodedig, ail agorwyd yr eiddo yn ystod mis Mai 2009.

Yn anffodus, bu tystiolaeth pellach o ymarferion annerbyniol a fu i arwain i'r Heddlu eto gyflwyno cais am adolygiad. Gwrandawyd yr achos gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu ar 21 Hydref, 2009 pryd y penderfynodd yr Is-bwyllgor wahardd y drwydded.

Achos Llys

Apeliwyd yn erbyn y penderfyniad yma ac oherwydd i apel gaeli ei chyflwyno, roedd hawl gan yr eiddo i aros yn agored hyd y gwrandawyd yr apel.

Rhaglenwyd yr apel ar gyfer 21 Mai, 2010, i'w gynnal yn y Llys Ynadon. Bu newid ar y dyddiad yma pan sylweddolwyd na fuasai'n bosibl cynnal yr achos oddi fewn un diwrnod. Ail raglenwyd, a cynhaliwyd yr achos ar 7-8 Medi, 2010, yn Lys Ynadon Caernarfon.

Cyflwynywd tystiolaeth ar ran y Cyngor gan y Cynghorydd Tudor Owen, sef Cadeirydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu a glywodd yr achos ar 21 Hydref, 2009; y Cynghorydd Dewi Llewellyn, sef yr aelod lleol, a oedd wedi cyflwyno tystiolaeth yng ngwrandawiad yr Is-bwyllgor a'r Rhingyll William Coppack, a oedd yn cynrychioli'r Heddlu, sef y corff a gyflwynodd y cais am adolygiad yn wreiddiol. Ar ran Bangor Blues, cafwyd tystiolaeth oddi wrth Richard Williams, deilydd y drwydded eiddo, a Charles Hughes, y Goruchwiliwr Eiddo Dynodedig.

Yn ystod y gwrandawiad, a barhaodd am ddiwrnod a hanner, 'roedd cyfle i'r Ynadon herio'r dystiolaeth a gyflwynwyd iddynt, sef y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Is-bwyllgor ynghyd a gwybodaeth perthnasol o'r cyfnod ble bu'r eiddo'n agored yn dilyn yr apel> Yn dilyn hyn, penderfynodd yr Ynadon wrthod yr apel a cefnogi'r Cyngor yn eu penderfyniad. Yn ychwanegol i hyn, cyfarwyddwyd berchennog y drwydded, Richard Williams i dalu £4,500 tuag at gostau'r Cyngor.

Mae hawl gan Mr Williams i ofyn am Ddatganiad Achos, ar bwynt o gyfraith, a buasai rhaid iddo ofyn am hyn erbyn 29 Hydref, 2010, neu am Arolwg Barnwrol ar sail ymddygiad anghyfreithiol, afresymol neu anghysondeb gweithredol o ran y Llys, a buasai angen iddo wneud hyn erbyn 8 Rhagfyr, 2010.

Yn wahanol i’r hyn a ddigwyddodd yn dilyn penderfyniad yr Is-bwyllgor, hyd yn oed os derbynnir apel ar pa bynnag sail, nid oes hawl ganddo i’r eiddo agor fel sefydliad trwyddedig. Os na ofynnir am Ddatganiad Achos neu Adolygiad Barnwrol, a bod y sefyllfa bresennol yn parhau, yr unig ffordd y gall yr eiddo yma agor eto fel eiddo trwyddedig yw os derbynnir cais am drwydded NEWYDD, a buasai angen, bryd hynny, i fynd drwy’r drefn arferol o ymdrin a’r fath gais, a mater i Is-bwyllgor bryd hynny buasai dyfarnu ar unrhyw gais, pe derbynnir unryw wrthwynebiadau i’r cais honno.

ARGYMHELLIAD

Argymhellir bod y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.